

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 21^{ain} Mai 2015

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin am 6.00pm

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd

Eric Davies (ED)

Keith Morgan (KM)

Becky Chunisingh (BC)

Chris Rankin (CR)

Jillie Gardiner (JG)

David Stacey (DS)

Caroline Evans (CE)

Glyn Evans (GE)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd

Michael Roberts – Gorfodi Materion Amgylcheddol CSC

Alan Evans – Adain Gyfreithiol CSC

Geoff Williams – Y Cerddwyr

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd

Alan Warner (AW) – Aelod o benodwyd gan CSC

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)

Phil Stone (Cyfoeth Naturiol Cymru)

MATERION YN CODI	Y CAM GWEITHREDU
Eitem 1 Croeso – Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod.	
Eitem 2 Aelod Newydd Estynnwyd croeso i Becky Chunisingh i'r Fforwm Mynediad Lleol a gofynnwyd iddi ei chyflwyno ei hun. Eglurodd Becky ei chefnidir gyda Chwaraeon Cymru gan sôn am ei diddordeb ym meysydd hamdden / iechyd / twristiaeth a'r awyr agored. Dywedodd Becky fod ganddi ddiddordeb penodol mewn mynediad ar gyfer pobl anabl. Roedd y Fforwm Mynediad Lleol yn falch o gadarnhau Becky yn aelod newydd.	
Eitem 3 Gorchmynion Rheoli Cŵn: Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 – Michael Roberts, Gorfodi Materion Amgylcheddol CSC Ian Evans, Adain Gyfreithiol CSC Cyflwynodd Michael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r cynigion dilynol am y mesurau Rheoli Cŵn a fyddai'n cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol. Dywedodd fod rhyw 620 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a bod ymgynghori wedi digwydd hefyd â chyrrff megis y Fforwm Mynediad Lleol, y Kennel Club, Ystad y Goron a Heddlu Dyfed-Powys. Roedd 82% o'r ymatebion gan berchenogion cŵn. Ar ôl trafod y mater â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd CSC, roedd cytundeb taw'r prif argymhellion fyddai: <ol style="list-style-type: none">1. Gorchymyn ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n mynnu bod pobl yn codi baw	

eu cŵn ar bob tir cyhoeddus yn y sir (Gorchymyn Baw Cŵn)

2. Gorchymyn ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n mynnu bod pobl yn cadw eu cŵn ar dennyn pan roddir cyfarwyddyd iddynt wneud hynny gan swyddog awdurdodedig, a allai gynnwys swyddogion yr awdurdod lleol, swyddogion yr heddlu a/neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (Gorchymyn Cadw Cŵn ar Dennyn trwy Gyfarwyddyd)

Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i orfodi'r cyfryw Orchmynion. Roedd problemau penodol wedi eu clustnodi ym Mharc Arfordirol y Mileniwm gan fod rhai perchenogion, yn ôl yr haeriad, yn gwneud dim ond gollwng eu cŵn o'u ceir gan adael iddynt grwydro fel y mynnont a bod achosion o gŵn yn ymosod ar gŵn eraill. Cadarnhaodd Alan fod gan denantiaid y Cyngor hawl i gael un ci yn unig o dan eu cytundeb tenantiaeth.

Eglurodd Michael ac Alan fod yn rhaid i unrhyw fesurau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddweud y byddai rhagor o ymgynghori ffurfiol ynghylch unrhyw gynigion. Dywedodd taw'r camau nesaf oedd bod Adroddiad ynghylch yr argymhellion yn cael ei roi gerbron Pwyllgor Craffu y Cyngor. Yna byddai unrhyw argymhellion / cynigion gan y Pwyllgor Craffu yn cael eu hystyried gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Byddid yn cyhoeddi'r fersiwn drafft o'r gorchymynion ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a hynny ym mis Medi mae'n debyg. Yna byddai'r ymatebion yn cael ei roi gerbron y Bwrdd Gweithredol unwaith eto a fyddai'n penderfynu'n derfynol ynghylch gweithredu'r gorchymynion.

Gofynnodd MH a oedd unrhyw newidiadau o ran traethau lle'r oedd is-ddeddfau mewn grym eisoes. Dywedodd Michael nad oedd dim argymhellion, ac y byddai'r is-ddeddfau presennol yn Llansteffan ac ym Mhen-bre yn parhau. Byddai'r drefn wirfoddol ym Mhentywyn yn parhau. Byddai'r Gorchymyn Baw Cŵn a'r Gorchymyn Cadw Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd cyffredinol arfaethedig mewn grym, a dylent fod yn ddigonol. Hefyd gellid defnyddio Gorchymyn Diogelu Man Cyhoeddus i ymdrin â phroblemau mewn ardal benodol petai angen. Dywedodd DS ei fod yn tybio y byddai Llansteffan yn parhau i ddefnyddio'r is-ddeddf bresennol ar y traeth yno. Dywedodd CE fod Cymdeithas Ymwelwyr Sir Gâr wedi cyfarfod y bore hwnnw ac y byddai'r gymdeithas yn cyfleu ei barn i'r Cyngor. Atgoffwyd y cyfarfod fod Sir Gaerfyrddin yn ei hyrwyddo ei hun fel sir oedd yn "croesawu cŵn". Roedd pryderon wedi eu lleisio gan rai ynghylch y posibilrwydd y gallai mesurau llym beri i dwristiaid ac ymwelwyr gadw draw.

Dywedodd Michael fod y ddeddfwriaeth yn cwmpasu'r gallu i adolygu effeithiolrwydd unrhyw Orchmynion.

Diolchodd MH i Michael ac Alan am fynd i'r cyfarfod ac am egluro'r safbwynt presennol.

Eitem 4 Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.

Eitem 5 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 26^{ain} Chwefror 2015

Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo.

<p>Eitem 6 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 26^{ain} Chwefror 2015</p>	
<p>Nid oedd dim materion yn codi.</p> <p>Eitem 7 Cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned – y wybodaeth ddiweddaraf gan MH</p> <p>Roedd MH wedi ysgrifennu at bob un o'r 72 o gynghorau tref a chymuned yn Sir Gaerfyrddin ar 15^{fed} Mawrth i'w gyflwyno ei hun fel Cadeirydd y Fforwm, i egluro gwaith y Fforwm Mynediad Lleol ac i ofyn am gysylltiad pellach. Hyd yn hyn roedd MH wedi cael 3 ymateb gan gynnwys gwahoddiad i fynd i gyfarfod o Gyngor Cymuned Trimsaran yn y dyfodol.</p>	
<p>Eitem 8 Recriwtio</p> <p>Gweler Eitem 2 uchod. Nid oedd rhagor o geisiadau wedi dod i law.</p>	
<p>Eitem 9 Rhaglen Gwaith Grantiau</p> <p>Roedd Tîm Gweithrediadau Cefn Gwlad CSC wedi darparu taenlen a fanylai ar y gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus oedd wedi eu gwneud ag arian grantiau yn ystod 2014-2015. Roedd y daenlen yn manylu ar y llwybrau ac ar y gwaith oedd wedi ei wneud.</p>	
<p>Eitem 10 Adroddiad Blynyddol</p> <p>Roedd hi'n ofynnol i lunio adroddiad blynyddol ond nid oedd y Fforwm Mynediad Lleol wedi llunio un yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddibynnu'n hytrach ar ddefnyddio cofnodion y cyfarfodydd i amlinellu ei waith.</p> <p>Fodd bynnag teimlai aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol y gallai Adroddiad Blynyddol fod yn ffordd arall o hyrwyddo gwaith y Fforwm Mynediad Lleol. Cytunodd MH i lunio fersiwn drafft o'r adroddiad.</p>	<p>MH</p>
<p>Eitem 11 Y Gwasanaeth Archifau</p> <p>Roedd KB, drwy gyfrwng neges e-bost, wedi cyfeirio at y ffaith fod Gwasanaeth Archifau'r Sir ym Mharc Myrddin ynghau dros dro ar hyn o bryd, ond nid oedd hi'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno. Dywedodd JT y byddai'n cysylltu â Jane Davies, Uwch-reolwr Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Sir Caerfyrddin i gael eglurhad ynghylch hyn.</p>	<p>JT</p>
<p>Eitem 12 Glastir - Mynediad Caniataol - MH</p> <p>Dywedodd MH fod Jane Tibbott, Taliadau Gwledig Cymru, wedi atgoffa'r Fforwm Mynediad Lleol, yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm, y dylai gyflwyno unrhyw ddyheadau oedd ganddo ynghylch llwybrau caniataol. Dywedodd MH fod y Fforwm Mynediad Lleol wedi cytuno'n flaenorol fod diffyg mynediad cyffredinol yng ngogledd-ddwyrain y Sir, ac y byddai'n croesawu mwy o fynediad i gefn gwlad, lle'r oedd hynny'n bosibl, ledled y Sir. Hefyd roedd prinder llwybrau ceffylau yn y Sir, ac roedd unrhyw lwybr oedd yn gyswllt oddi ar y ffordd rhwng 2 hawl dramwy gyhoeddus o unrhyw fath yn fanteisiol. Byddai JT yn cyflwyno sylwadau ar ran y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Os oedd gan unrhyw aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch llwybrau penodol neu ddolenni cyswllt penodol, dylent roi'r manylion i MH a/neu JT.</p>	<p>JT</p> <p>PAWB</p>

Eitem 13 Cilffordd 58/14 (Sir Gaerfyrddin) a Ffordd a Ddefnyddir fel Llwybr Cyhoeddus 63/17 (Ceredigion) – MH

Dosbarthodd MH bapur roedd wedi ei lunio ynghylch Gorchymyn Ailddosbarthu yng Ngheredigion. Eglurodd taw'r bwriad gwreiddiol oedd ailddosbarthu Ffordd a Ddefnyddir fel Llwybr Cyhoeddus yn Gilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig er mwyn ei chysylltu â Chilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig 58/14 ar ochr Sir Gaerfyrddin i'r ffin. Fodd bynnag, ni chawsai Gorchymyn Ceredigion ei gadarnhau o ganlyniad i 2 wrthwynebiad. Barn Ceredigion oedd y gallai Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 beri bod posibilrwydd yn awr y câi'r llwybr ei gadarnhau'n ddim ond Cilffordd Cyfyngedig a fyddai'n golygu na fyddai llwybr trawsffiniol ar gael ar gyfer cerbydau modur, a oedd yn ymddangos yn sefyllfa hurt. Gofynnodd MH am ganiatâd gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin i ysgrifennu at Geredigion a'r Arolygiaeth Gynllunio yn y modd yr oedd wedi ei amlinellu yn ei bapur.

Eitem 14 Eitemau i'w rhoi ar yr Agenda yn y Dyfodol - Trafodaeth

Awgrymiadau:

- Deddf Teithio Llesol 2013 – angen y wybodaeth ddiweddaraf
- Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o gyhoeddiadau Hamdden a Mynediad – y wybodaeth ddiweddaraf gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Eitem 15 Unrhyw Fater Arall

- **Deddf Teithio Llesol 2013** – Roedd DS wedi bod yn bresennol yn ddiweddar mewn cyfarfod ymgynghori a hyfforddiant oedd wedi ei gynnal gan Sustrans yn Abertawe ynghylch gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol. Eglurwyd taw nod y Ddeddf oedd sicrhau bod 20% o'r holl siwrneiau oedd yn llai na 3 milltir yn siwrneiau cerdded neu feicio yn hytrach na siwrneiau mewn ceir, gan ganolbwyntio ar ardaloedd trefol. Dywedwyd taw'r cam cyntaf o ran gweithredu oedd clustnodi'r llwybrau presennol a'u harchwilio. Roedd DS yn barnu bod rhwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol i ymgynghori â'r rhai oedd a wnelont â'r mater. Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod fod Sustrans wedi bod yn cydweithio ag ymgynghorwyr er mwyn datblygu offeryn datblygu ac archwilio i edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Dywedodd DS fod Helen Davies wedi ei phenodi'n rheolwr rhanbarthol Sustrans yn ddiweddar. Byddai JT yn gofyn i Simon Charles, Rheolwr Polisi Trafnidiaeth ac Isadeiledd CSC, ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn cyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.
- **Cysylltiad y Fforwm Mynediad Lleol â'r Cyngor** - Gofynnodd GE beth oedd cysylltiad y Fforwm Mynediad Lleol â'r cynghorwyr etholedig / y Pwyllgor Craffu / y Bwrdd Gweithredol. Dywedodd JT fod y Cynghorydd D. Cundy, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, wedi cytuno yn y gorffennol i geisio mynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol fel sylwedydd. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau o ran cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor a'r newidiadau o ran yr adrannau, roedd JT yn ceisio canfod i bwy y dylid rhoi gwahoddiad yn y dyfodol.

JT

JT

Eitem 16 Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf

Dyddiadau'r cyfarfodydd am weddill y flwyddyn, sydd i'w cynnal am 6pm ar ddydd lau yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, yw:

27^{ain} Awst 2015

19^{eg} Tachwedd 2015

